# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Gymraeg Cwmnedd

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae'r ysgol yn lle diogel, cartrefol, hapus a gofalgar, lle mae staff a disgyblion yn cydweithio’n effeithiol ac yn dangos parch tuag at ei gilydd. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, yn teimlo eu bod yn ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi pan fyddant am siarad â rhywun am eu gofidiau. Mae staff yn helpu disgyblion i setlo’n gyflym wrth ddechrau’r ysgol ac yn eu paratoi’n dda ar gyfer symud i’r ysgol uwchradd pan ddaw’r amser.

Mae’r pennaeth, y dirprwy bennaeth ac arweinwyr eraill yn hynod drefnus ac yn arwain yr ysgol yn effeithiol iawn. Maent yn canolbwyntio’n dda ar wella dysgu a lles disgyblion ac am iddynt fod yn falch o’u cymuned ac yn awyddus i ddysgu trwy gydol eu hoes, gan wneud eu gorau glas. Mae arweinwyr yn gwybod beth sy’n gweithio’n dda yn yr ysgol a’r hyn sydd angen ei wella, ac maent yn gwneud gwelliannau yn llwyddiannus.

Mae’r cwricwlwm yn eang a chyffrous ac yn addysgu disgyblion am eu cymuned a’i lle o fewn Cymru a’r byd. Mae’r ysgol yn cefnogi disgyblion yn effeithiol, gydag athrawon a chynorthwywyr yn paratoi tasgau a phrofiadau diddorol sy’n eu helpu i fod yn awyddus i ddysgu. O ganlyniad i ddulliau addysgu llwyddiannus yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, eu cymhwysedd digidol a’u medrau ehangach. Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, a staff yn eu hannog i siarad yr iaith yn gyson, mae ychydig yn aml yn troi i siarad Saesneg yn y dosbarth ac ar adegau eraill. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn mathemateg a rhifedd ond nid ydynt bob amser yn cael digon o gyfleoedd i’w defnyddio mewn sefyllfaoedd ‘go iawn’ mewn agweddau eraill o’r cwricwlwm.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Sicrhau bod athrawon yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd mewn cyd-destunau cyfoethog ar draws y cwricwlwm

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/05/2025